# Crynodeb o’r Penderfyniadau 2026

<table>
<tr><th>Y cynnig</th><th>Penderfyniad</th></tr>
<tr><td colspan="2">TREFNIADAETH ADDYSG A CHYNNWYS ADDYSG</td></tr>
<tr><td>1. Deallusrwydd artiffisial – y gweithlu addysg</td><td>Pasiwyd yn unfrydol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deallusrwydd Artiffisial – y gweithlu addysg<br>Mae’r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau hyfforddiant cyson i’r gweithlu addysg a fydd:<br>(a) yn rhoi arweiniad pendant ar y defnydd cyfreithlon o Ddeallusrwydd Artiffisial<br>(b) yn cynnig canllawiau clir i ysgolion ynglŷn â’r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial i greu adnoddau / deunyddiau dysgu<br>a hefyd<br>(c) yn addysgu’r gweithlu am yr heriau y mae Deallusrwydd Artiffisial yn eu cynnig, gan gynnig arfer neu gallawiau pendant er mwyn ymateb I’r heriau.</td></tr>
<tr><td>2. Deallusrwydd artiffisial - dysgwyr</td><td>Gwnaed gwelliant<br>Pasiwyd y gwelliant yn unfrydol<br>CYNNIG TERFYNOL – UNFRYDOL</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y CYNNIG GWREIDDIOL<br>Mae’r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau hyfforddiant eang a chyson i ddysgwyr a myfyrwyr o bob oed ym maes Deallusrwydd Artiffisial, fel eu bod yn gwbl ymwybodol o’r hyn y gallant ei wneud yn gyfreithlon a beth yw’r gwahaniaeth rhwng defnyddio’r dechnoleg fel arf i’w cynorthwyo a defnyddio’r dechnoleg mewn modd twyllodrus neu ddiegwyddor (e.e. creu delweddau amrhiodol). Rydym yn awyddus i sicrhau defnydd effeithiol, diogel, cyfrifol ac egwyddorol o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) a theimlwn fod angen hyfforddiant pwrpasol ar raddfa genedlaethol i sicrhau hynny.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y CYNNIG TERFYNOL<br>Mae’r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau, ar fyrder, hyfforddiant eang a chyson a pharhaus i ddysgwyr a myfyrwyr o bob oed ym maes Deallusrwydd Artiffisial, fel eu bod yn gwbl ymwybodol o’r hyn y gallant ei wneud yn gyfreithlon a beth yw’r gwahaniaeth rhwng defnyddio’r dechnoleg fel arf i’w cynorthwyo a defnyddio’r dechnoleg mewn modd twyllodrus neu ddiegwyddor (e.e. creu delweddau amrhiodol). Rydym yn awyddus i sicrhau defnydd effeithiol, diogel, cyfrifol ac egwyddorol o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) a theimlwn fod angen hyfforddiant pwrpasol ar raddfa genedlaethol i sicrhau hynny.</td></tr>
<tr><td>3. Statws cyfartal i gyrsiau galwedigaethol</td><td>Pasiwyd yn unfrydol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae’r Gynhadledd yn galw ar sefydliadau addysg a byrddau arholi i sicrhau bod statws priodol yn cael ei roi i gyrsiau galwedigaethol ac nad ydynt yn cael eu hamddifadu o unrhyw gyfleoedd i sicrhau bod dysgwyr a myfyrwyr yn gallu eu hastudio a sefyll arholiadau ynddynt drwy gyfrwng y Gymraeg.</td></tr>
<tr><td>4. Cyrsiau galwedigaethol yn y Gymraeg</td><td>Pasiwyd yn unfrydol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae’r Gynhadledd yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau cefnogaeth i ddatblygu adnoddau sy’n cefnogi cyrsiau galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg.</td></tr>
<tr><td>5. Pynciau TGAU yn y Gymraeg</td><td>Pasiwyd yn unfrydol</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Mae'r Gynhadledd yn galw ar yr Awdurdod i wirio'r ganran o ddisgyblion Gwynedd sydd yn sefyll arholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg, a chreu strategaeth a chefnogaeth i ysgolion sicrhau cynnydd yn y niferoedd. | |
| **6. Defnyddio fersiwn Cymraeg enwau llefydd** | **Pasiwyd gyda mwyafrif** |
| Mae'r Gynhadledd yn galw ar CBAC i fabwysiadu polisi o ddefnyddio enwau llefydd Cymraeg yn unig ar gyfer llefydd sydd yng Nghymru e.e. Caerdydd, Abertawe ac nid Cardiff a Swansea. | |
| **7. Safon y Gymraeg** | **Pasiwyd yn unfrydol** |
| Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cyfleoedd priodol ar gael i unigolion i loywi ac ymarfer eu hiaith a'u bod, yn ystod y cyrsiau hynny, yn cael eu haddysgu am hanes, diwylliant ac ethos 'addysg cyfrwng Cymraeg'. | |
| **8. Gwella llythrennedd (darllen)** | **Gwnaed gwelliant**<br>**Pasiwyd y gwelliant yn unfrydol**<br>**CYNNIG TERFYNOL – UNFRYDOL** |
| **Y CYNNIG GWREIDDIOL**<br>Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal ymgyrch ddarllen a fydd yn annog rhieni i ddarllen gyda'u plant. | |
| **Y CYNNIG TERFYNOL**<br>Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal ymchwiliad o ymgyrchoedd darllen gyda'r deilliant o flaenoriaethu un neges gref i annog rhieni i ddarllen gyda'u plant. | |
| **9.Cyrsiau TGAU**<br>**10. Arholiadau TGAU newydd (asesiadau)**<br>**11. Cyllido Teg i 6ed Dosbarth ac Atebolrwydd Medr**<br>**12. Cyfleoedd dysgu Cymraeg** | **Syrthiodd y cynigion *** |
| **13. Dysgwyr yn mynd dros y ffin i dderbyn eu haddysg** | **Gwnaed gwelliant**<br>**Pleidlais 12 o blaid 5 yn erbyn**<br>**Cafwyd gwelliant ar y gwelliant**<br>**Pasiwyd yr ail welliant 16 o blaid ac 1 yn ymatal**<br>**Pasiwyd y trydydd gwelliant yn unfrydol**<br>**CYNNIG TERFYNOL – UNFRYDOL** |
| **Y CYNNIG GWREIDDIOL**<br>Mae Cynhadledd UCAC yn galw ar Lywodraeth Cymru:<br>1. I sicrhau trefniant ariannu teg a chymesur ar gyfer ardaloedd ger y ffin (e.e. Powys), gan ystyried maint daearyddol helaeth y sir a'r heriau unigryw sy'n gysylltiedig â darparu addysg o safon mewn ardal mor wasgarog<br>2. I warantu cyfleoedd addysg cyfartal i holl ddisgyblion ardaloedd sy'n agos at y ffin, gan gynnwys mynediad at ystod ehangach o gyrsiau ôl-14 ac ôl-16, fel nad oes rhaid i ddisgyblion droi at ysgolion neu golegau dros y ffin i lenwi bylchau<br>3. I weithio gyda'r awdurdod lleol i gryfhau darpariaeth academaidd a galwedigaethol fel blaenoriaeth strategol, gan sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i gynnal a datblygu ysgolion ledled y sir. | |
| **Y CYNNIG TERFYNOL**<br>Mae Cynhadledd UCAC yn galw ar Lywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol perthnasol: | |

| | |
|---|---|
| 1. I sicrhau trefniant ariannu teg a chymesur ar gyfer ardaloedd ger y ffin (e.e. Powys), gan ystyried maint daearyddol helaeth y sir a'r heriau unigryw sy'n gysylltiedig â darparu addysg o safon mewn ardal mor wasgarog<br>2. I warantu cyfleoedd addysg cyfartal i holl ddisgyblion ardaloedd sy'n agos at y ffin, gan gynnwys mynediad at ystod ehangach o gyrsiau ôl-14 ac ôl-16, fel nad oes rhaid i ddisgyblion droi at ysgolion neu golegau dros y ffin i lenwi bylchau<br>3. I gydweithio i gryfhau darpariaeth academaidd a galwedigaethol fel blaenoriaeth strategol, gan sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i gynnal a datblygu ysgolion ledled Cymru. | |
| **Y CYNNIG TERFYNOL**<br><br>Mae Cynhadledd UCAC yn galw ar Lywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol perthnasol:<br><br>1. I sicrhau trefniant ariannu teg a chymesur ar gyfer ardaloedd ger y ffin (e.e. Powys), gan ystyried maint daearyddol helaeth y sir a'r heriau unigryw sy'n gysylltiedig â darparu addysg o safon mewn ardal mor wasgarog<br><br>2. I warantu cyfleoedd addysg cyfartal i holl ddisgyblion ardaloedd sy'n agos at y ffin, gan gynnwys mynediad at ystod ehangach o gyrsiau ôl-14 ac ôl-16, fel nad oes rhaid i ddisgyblion droi at ysgolion neu golegau dros y ffin i lenwi bylchau<br><br>3. I gydweithio i gryfhau darpariaeth academaidd a galwedigaethol fel blaenoriaeth strategol, gan sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i gynnal a datblygu ysgolion ledled Cymru. | |
| **14. Ariannu ADY** | **Pasiwyd yn unfrydol** |
| Mae'r Gynhadledd yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau fod arian digonol yn cyrraedd yr ysgolion i sicrhau fod ysgolion yn gallu darparu'n llawn ar gyfer anghenion disgyblion ADY. | |
| **15. Maint Dosbarthiadau** | **Pasiwyd yn unfrydol** |
| Mae'r Gynhadledd yn galw ar y Llywodraeth i roi uchafswm o 30 disgybl ym mhob dosbarth i bob oedran mewn ysgolion. | |
| **AMODAU GWAITH** | |
| **16. Sganwyr arfau mewn ysgolion** | **Pasiwyd yn unfrydol** |
| Er ei bod yn croesawu'r mesurau i gynyddu diogelwch staff a disgyblion, mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau canllawiau clir ynghylch y mater hwn. Gofynnwn am sicrwydd:<br>a) y bydd y sganwyr hyn yn cael eu hariannu'n ganolog gan Lywodraeth Cymru<br>b) na fydd unrhyw athro nac unrhyw aelod o'r Uwch Dîm Rheoli yn teimlo dan orfodaeth i ymgymryd â'r ddyletswydd ychwanegol hon<br>c) y bydd hyfforddiant priodol a thrylwyr yn cael ei roi i'r sawl fydd yn ei ddefnyddio, gan gynnwys beth i'w wneud mewn gwahanol amgylchiadau. | |
| **17. Hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg** | **Pasiwyd yn unfrydol** |
| Wrth i'r cwricwlwm ehangu ac wrth i nifer y cyrsiau a gynigr i ddysgwyr gynyddu, mae'r Gynhadledd yn galw ar CBAC/CYDAG i sicrhau cysondeb hyfforddiant i athrawon, waeth lle y bônt yn addysgu. | |
| **18. Gwobrwyo'r sgil o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg** | **Pasiwyd yn unfrydol** |

<table>
<tr><td colspan="2">Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod bod addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn sgil werthfawr ac yn sgil sy'n haeddu cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol.</td></tr>
<tr><td>19. Denu a Chadw athrawon</td><td>Gwnaed gwelliant<br>Pasiwyd y gwelliant<br>CYNNIG TERFYNOL – UNFRYDOL</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y CYNNIG GWREIDDIOL<br>Mae'r Gynhadedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych o'r newydd ar ddulliau denu athrawon, gan ystyried rhai o'r materion isod:<br>• Talu benthyciadau myfyrwyr (e.e talu 10% am gyfnod o 10 mlynedd)<br>• Olrhain hynt a helynt gyrfa myfyrwyr a gafodd fwrsariaethau cychwynnol, er mwyn gweld beth sydd wedi eu cadw yn y proffesiwn neu sydd wedi peri iddynt adael y proffesiwn.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y CYNNIG TERFYNOL</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae'r Gynhadedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych o'r newydd ar ddulliau denu a chadw athrawon, gan ystyried rhai o'r materion isod:<br>• Talu benthyciadau myfyrwyr (e.e talu 10% am gyfnod o 10 mlynedd)<br>• Olrhain hynt a helynt gyrfa myfyrwyr a gafodd fwrsariaethau cychwynnol, er mwyn gweld beth sydd wedi eu cadw yn y proffesiwn neu sydd wedi peri iddynt adael y proffesiwn .</td></tr>
<tr><td>20. Nyrsys ysgol</td><td>Pasiwyd yn unfrydol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ysgafnhau'r pwysau sydd ar y gweithlu addysg o ran ymdrin â materion meddygol, gan lunio polisi Cenedlaethol a fyddai'n sicrhau cysondeb a gwarantu mai Awdurdodau Lleol ac nid ysgolion sy'n ariannu'r gwasanaeth pwysig hwn.</td></tr>
<tr><td>21. Gofal meddygol</td><td>Gwnaed gwelliant<br>Pasiwyd yn unfrydol<br>CYNNIG TERFYNOL - UNFRYDOL</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y CYNNIG GWREIDDIOL<br>Mae'r Gynhadledd yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau nad oes disgwyl i athrawon sydd wedi eu hyfforddi i roi cymorth cyntaf, i weithredu unrhyw ofal meddygol tu hwnt i'w cymhwyster.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y CYNNIG TERFYNOL<br>Mae'r Gynhadledd yn galw ar y Llywodraeth i gadarnhau nad oes disgwyl i athrawon sydd wedi eu hyfforddi i roi cymorth cyntaf, i weithredu unrhyw ofal meddygol.</td></tr>
<tr><td>22. CPA</td><td>Gwnaed gwelliant<br>CYNNIG TERFYNOL – pasiwyd gyda mwyafrif</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y CYNNIG GWREIDDIOL<br>Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru, i sicrhau cysondeb gan ei wneud yn hawl statudol i bawb allu cyflawni eu cyfnod CPA gartref.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y CYNNIG TERFYNOL<br>Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru, i sicrhau cysondeb yn genedlaethol wrth gynllunio staffio yn y sectorau cynradd ac uwchradd, gan ei wneud yn hawl statudol i bawb allu cyflawni eu cyfnod CPA gartref.</td></tr>
<tr><td>23. Hyblygrwydd swydd</td><td>Pasiwyd yn unfrydol</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i'r opsiynau amrywiol (er enghraifft wythnos pedwar diwrnod) a fyddai'n gwneud addysgu yn broffesiwn llawer mwy hyblyg. | |
| **24. Diffyg hyblygrwydd swydd athro** | **Syrthiodd y cynnig*** |
| **25. Ymddygiad dysgwyr** | **Pasiwyd yn unfrydol** |
| Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â phroblemau ymddygiad heriol yn ein hysgolion, fel bod y gweithlu a dysgwyr yn gallu teimlo'n ddiogel yn ein hysgolion a bod pawb yn gallu canolbwyntio ar ddysgu ac addysgu. | |
| **26. Ffonau symudol** | **Gwnaed gwelliant**<br>**Pasiwyd y gwelliant yn unfrydol**<br>**CYNNIG TERFYNOL – UNFRYDOL** |
| **Y CYNNIG GWREIDDIOL**<br>Mae'r Gynhadledd yn galw ar y Llywodraeth i ddewis ac i ariannu un darparwr Cenedlaethol ar ddull o gloi ffôn yn ddiogel yn ystod diwrnod ysgol, gan roi arweiniad clir ar ei ddefnydd a chadw costau yn isel. | |
| **Y CYNNIG TERFYNOL**<br>Mae'r Gynhadledd yn galw ar y Llywodraeth i ddewis un darparwr Cenedlaethol ac i ariannu un dull o gloi ffôn yn ddiogel yn ystod diwrnod ysgol, gan roi arweiniad clir ar ei ddefnydd a chadw costau yn isel. | |
| **27. Cytundebau Gwaith Darlithwyr/Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion** | **Syrthiodd y cynnig*** |
| **28. Honiadau di-sail** | **Pasiwyd yn unfrydol** |
| Mae'r Gynhadledd yn galw ar y Llywodraeth i roi mesurau yn eu lle i ddiogelu staff pan fo honiadau di-sail yn cael eu gwneud yn gyhoeddus ar wefannau cymdeithasol. | |
| **29. CAD rhan amser** | **Pasiwyd yn unfrydol** |
| Mae'r Gynhadledd yn galw ar y Llywodraeth i newid geiriad y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon er mwyn sicrhau fod athrawon yn derbyn canran o'r taliad CAD sy'n adlewyrchu canran y cyfrifoldeb maen nhw'n ei gyflawni. | |
| **30. Hyfforddiant CBAC** | **Pasiwyd yn unfrydol** |
| Mae UCAC yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau fod canllawiau oriau cyfeiriedig yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon yn disgwyl i ysgolion gydnabod unrhyw hyfforddiant sy'n digwydd tu hwnt i oriau arferol tuag at oriau cyfeiriedig athrawon, sef 1265 awr. | |
| **31. Ysgol dan Glo (Lockdown)** | **Pasiwyd yn unfrydol** |
| Mae UCAC yn gofyn i'r Llywodraeth roi canllawiau clir yn eu lle, i sicrhau y gall athrawon sydd mewn Ysgol dan glo, gael yr hawl i gysylltu tu allan i'r Ysgol mewn argyfwng i drefnu gofal plant. | |
| **32. Ymddygiad a hawliau rhieni** | **Syrthiodd y cynnig*** |
| **33. Hawliau rhieni** | **Syrthiodd y cynnig*** |
| **34. Paratoi gwaith i ddisgyblion pan nad ydynt yn yr ysgol** | **Syrthiodd y cynnig*** |
| **C. Arall** | |
| **35. Bwyd lleol** | **Pasiwyd yn unfrydol** |
| Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi cynhyrchwyr lleol, gan sicrhau bod y cig a weinir yn ein hysgolion yn gig sydd yn lleol, yn ffres ac o ansawdd da. | |
| **CYNNIG BRYS** | |

| 36. Asesiadau | Pasiwyd yn unfrydol |
|---|---|
| Mae’r Gynhadledd yn galw ar y Llywodraeth, Cymhwysterau Cymru a CBAC i sicrhau nad ydynt yn creu llwyth gwaith ychwanegol i athrawon ac yn cynnig arweiniad clir o ran yr heriau sydd yn codi o asesiadau. | |

*Syrthiodd y cynigion am nad oedd y cynigydd/yr eilydd yn gallu bod yn bresennol yn y Gynhadledd.